*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **4 Mehefin 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi Corffoaethol a Pherfformiad)** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb o'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud drwy Weithgor Cynllunio a Phanel Gweithredol yr Awdurdod, tuag at ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod 2019/20.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Gan fod amcangyfrif o bron i £2 filiwn o ddiffyg yng nghyllideb yr Awdurdod y flwyddyn nesaf, roedd cyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn gynharach eleni wedi canolbwyntio ar ddeall opsiynau'r ATA ar gyfer sicrhau cyllideb fantoledig ac effaith ei strategaeth ariannol ar ddarparu ymateb brys a gwasanaethau atal ac amddiffyn yn yr ardal.

3 Cafodd canlyniadau'r gwaith paratoi eu hystyried yn ffurfiol gan y Panel Gweithredol ar 14 Mai 2018, a phenderfynwyd argymell i gyfarfod yr Awdurdod llawn ym mis Mehefin y bydd cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd dros yr haf i benderfynu ar strategaeth ariannol yr Awdurdod o ran y canlynol: cynyddu'r swm sy'n cael ei gyfrannu gan awdurdodau lleol; lleihau costau rhedeg yr Awdurdod; neu gyfuniad o'r ddau.

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod o'r Awdurdod llawn ar 18 Mehefin 2018.

**CEFNDIR**

5 Yn Rhagfyr 2017, cytunodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr ATA) fod Gweithgor Cynllunio, yn cynnwys holl aelodau ei Banel Gweithredol, yn gwneud y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu amcanion gwella a llesiant yr ATA ar gyfer 2019/20.

6 Er mwyn sefydlu Cynllun erbyn Ebrill 2019, bydd angen i'r Awdurdod fod wedi ymgynghori â'r cyhoedd am ei strategaeth arfaethedig dros yr haf a bod wedi gosod ei gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf erbyn Rhagfyr 2018. Yna, gellir llunio Cynllun drafft 2019/20 i'w gymeradwyo'n derfynol gan yr ATA ym mis Mawrth 2019.

7 Rhaid i ATAau Cymru sicrhau eu bod yn gallu cael digon o arian bob blwyddyn i dalu eu costau am ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn eu hardal. Prif ffynhonnell cyllidebau refeniw'r ATAau yw'r cyfraniadau ariannol gan bob awdurdod lleol yn eu hardal.

8 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf o gyni ariannol yn y sector cyhoeddus, mae ATA Gogledd Cymru wedi cadw'r cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol yn isel drwy leihau ei gostau rhedeg ei hun a defnyddio ei gronfeydd wrth gefn. Yr effaith gronnol yw bod yr ATA nawr yn wynebu diffyg a amcangyfrifir fydd yn £1,898,000 yn ei gyllideb yn 2019/20. Rhaid mynd i'r afael â hyn cyn dechrau'r flwyddyn honno.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL**

9 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân gyflwyno adroddiad ar ran y Grŵp Gweithredol i'r Panel Gweithredol ar 14 Mai 2018, i grynhoi cynnydd y Gweithgor Cynllunio ac i geisio argymhelliad ffurfiol gan y Panel Gweithredol i'r Awdurdod ynglŷn â'r ffordd y mae'n ymdrin â'i gynaliadwyedd ariannol. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338156/7-cynllun-gwella-a-llesiant-2019-20.pdf

10 Cafodd y Panel Gweithredol ei atgoffa fod rhai aelodau o'r Gweithgor Cynllunio yn ffafrio ymdrin â'r diffyg a amcangyfrifir drwy gynyddu cyfraniadau a gwneud rhai gostyngiadau yng nghostau rhedeg y gwasanaeth tân ac achub. Roedd rhai eraill yn meddwl y byddai cynyddu'r cyfraniadau i ymdrin â chyfanswm y diffyg, sef £1,898,000, yn gynnig derbyniol.

11 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa hefyd y gallai gymryd llawer o amser i weithredu'r newidiadau felly mae'n bosibl na fyddai'r arbedion yn cael eu gwireddu ar unwaith ar ôl gwneud penderfyniad i gau gorsafoedd tân a/neu dynnu peiriannau tân, nid y lleiaf oherwydd yr amser angenrheidiol i ddiswyddo diffoddwyr tân. Cyngor y Trysorydd oedd y byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn yn yr amgylchiadau hynny am y rheswm penodol o bontio'r diffyg yn y cyfamser.

12 Roedd y Gweithgor Cynllunio yn cydnabod hefyd fod y dasg o amcangyfrif cost darparu gwasanaethau tân ac achub yn y blynyddoedd i ddod yn parhau i gael ei chymhlethu gan bwysau costau y gwyddom amdanynt ond nad oes modd o bennu'r union gost. Er enghraifft, goblygiadau ailbrisio pensiynau a chost Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) – sef y prosiect cenedlaethol i gyflwyno system gysylltiadau newydd i'w defnyddio gan y tri gwasanaeth brys a defnyddwyr eraill ym maes diogelwch y cyhoedd yn y DU.

13 Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Panel Gweithredol argymell i'r Awdurdod, yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2018, y dylai ei ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf ganolbwyntio ar ei ddull strategol o fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir, sef naill ai:

a) cael amcangyfrif o £1,898,000 o gynnydd yng nghyfanswm cyfunol cyfraniad yr awdurdodau lleol yn 2019/20, ac felly gadw lefelau presennol y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru; NEU

b) cael mymryn llai o gynnydd na £1,898,000 yng nghyfanswm cyfunol cyfraniad yr awdurdodau lleol, ac felly gadw'r prif wasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru ond bod angen gwneud rhai arbedion.

14 Yna, byddai'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei fwydo i mewn i'r gwaith o osod cyllideb yr Awdurdod yn Rhagfyr 2018 a datblygu ei Gynllun ar gyfer 2019/20 erbyn Mawrth 2019.

15 Penderfynodd y Panel Gweithredol beidio ag argymell ynghylch cynnydd llawer is yng nghyfraniad cyfunol yr awdurdodau lleol oherwydd y byddai hynny'n achosi gostyngiadau sylweddol iawn yn y gwasanaethau tân ac achub.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion llesiant | Goblygiad uniongyrchol ar gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas eglur rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2019/20 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid cytuno ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 yn Rhagfyr 2018 a'i chadarnhau erbyn canol Chwefror 2019. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ym maes llesiant a chynllunio gwelliannau. |
| Staffio | Bydd yr effaith ar lefelau staffio yn dibynnu ar benderfyniad yr ATA yn y pen draw, ond ni welir goblygiadau uniongyrchol o'r adroddiad hwn. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr effaith ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu'n llawn yn unol â phenderfyniad yr ATA yn y pen draw, ond ni welir goblygiadau uniongyrchol o'r adroddiad hwn. |
| Risgiau | Cafodd risgiau posibl eu hystyried yng nghorff yr adroddiad i'r Panel Gweithredol ym Mai 2018, ond bydd angen asesiad pellach fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad terfynol gan yr Awdurdod. |